Darganfod Hen Dai Cymreig
Discovering Old Welsh Houses

Reports: Welcome to the many Discovering Old Welsh Houses Reports which are available here on our website. All the reports - House Histories, Building Reports and Tree-ring Dating reports - can be accessed - *here*

Discovering Old Welsh Houses studies and celebrates the traditional houses of North Wales and the lives of the people who lived in them.

The copyright of most of these reports belongs to Discovering Old Welsh Houses. Where copyright resides with others, we have made every effort to obtain their permission to reproduce reports on our site. Our policy is to allow free access to our research documents as part of the public benefit we provide as a registered charity. You are welcome to reproduce this material but if you do so, please acknowledge the source

If you find the content useful, please consider becoming a *Member* to access the many benefits available.

Please note that these reports are being updated as part of an ongoing programme of revision. Older reports sometimes refer to the old names of the Group. Between 2005 and 2012 also known as The Snowdonia Dendrochronology Project, then the N W Wales Dendrochronology Project and then the Dating Old Welsh Houses Group.

New reports will be added from time to time. Keep an eye on our website for updates.

©Discovering Old Welsh Houses Group

Rhif Elusen Gofrestredig: No: 1131782: Registered charity

www.discoveringoldwelshhouses.co.uk

Dating Old Welsh Houses Project

North west Wales Dendrochronolgy Project

Dyddio Hen Dai Cymreig Prosiect

Prosiect Dendrocronoleg Gogledd Orllewn Cymru

House History Report

PENLAN FAWR,

Author

Researcher: Iwan Edgar

Feb 2012

All Material copyright of the Dating Old Welsh Houses Project © 2012

PROSIECT DENDROCHRONOLEG GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU
DYDDIO HEN DAI GYMREIG – LLŶN

NORTH WEST WALES DENDROCHRONOLGY PROJECT
DATING OLD WELSH HOUSES – LLŶN

PENLAN FAWR,

PWLLHELI, pa. DENEIO, GWYNEDD (SH 37471 35108)

English Summary

Penlan Fawr Inn was part of the Plas Hen (Talhenbont) estate in the county of Caernarfon which was sold by auction at Pwllheli in October 1844 (Gwynedd Archives Service, XSC 538). Through a marriage in the early seventeenth century the Plas Hen (Talhenbont) estate had become part of the Corsygedol estate which itself became part of the Mostyn estate through inheritance in 1791. (Colin A. Gresham, *Eifionydd*, Cardiff, 1973). Penlan Fawr may have come through the marriage of Gwen Anwyl, heiress of Gruffudd ap Madog of Llwyndyrys, with Rhys Vaughan of Corsygedol in the first half of the sixteenth century. Gruffudd ap Madog, and his brother before him, claimed the mayoralty of Pwllheli and this role was filled by the Corsygedol and Mostyn family until 1835. Richard Vaughan of Llwyndyrys, son and heir of Rhys Vaughan and Gwen, had a house in Pwllheli in 1578 (Bangor University Archives, Mostyn 1308) and it is not improbable that it was Penlan Fawr. Although the dendrochronolgy dating was inconclusive, Penlan Fawr is a type-A 'Snowdonia plan' house, with seventeenth century additions. The porch, which has the carved initials R.V. on one of its columns, was probably added by Richard Vaughan (1606-1636) who inherited the estate on his father's death in 1633 but died himself three years later.
Penlan Fawr may have become an inn early in its history. In the *Clenennau Letters and papers in the Brogyntyn Collection* (Aberystwyth, 1947) item 467, p. 133 is a letter dated 24 May of an unspecified year from William Vaughan (d. 1633) of Talhenbont to Sir William Maurice, Clenennau (1542 -1622) at London asking him to procure a licence to allow John Owen, one of William Vaughan's employees, to sell wine at Pwllheli. This letter has to pre-date William Maurice's death in 1622. This licence may have been for Penlan Fawr.
The first definite reference to Penlan Fawr being a tavern is in the Caernarfonshire Quarter Sessions records for 1784.

Following the 1844 sale, Penlan Fawr was owned by Abraham Jones Williams (1812-1887) of Gelliwig, Botwnnog.
It was later inherited by his nephew, Arthur Osmond Williams of Castell Deudraeth, who sold it in 1905 to its publican, James Cowell.
It was sold by him in 1920-21 to a brewery, possibly Ind Coope.
It was purchased and extended in 2003 by Punch Taverns.
It was purchased by the present owner, Iwan Edgar, in 2009.

Research by Iwan Edgar.
Summary in English by J Dilwyn Williams

June 2012

PENLAN FAWR,

Hanes a Chefndir

Yr oedd Penlan Fawr ymhlith nifer o eiddo ym Mhwllheli a'r cyffiniau a werthwyd gan Stâd Mostyn yn 1844[1]. O wybod mai eiddo Mostyn oedd gellid yn hawdd dybio mai eiddo Stâd Corsygedol (+Talhenbont) fyddai cyn hynny, gan i'r stâd honno yn ei chyfanrwydd drosglwyddo i Stâd Mostyn yn y 18g.. O ymchwilio i ddogfennau yn Archifdy Caernarfon a Mostyn (Bangor) daw Penlan Fawr i'r golwg ymhlith rhestr eiddo Corsygedol: rhestr eiddo William Vaughan, 1738 [2], a'i gytundeb priodas â Chatherine Nanney, 1732[3], a rhestr renti ei dad, Richard Vaughan, lle nodir fod John Griffith yn talu £6 „ 2 „ 6 y flwyddyn 1724[4] o rent. O bosib mae cyfeiriad at yr eiddo yn 1675[5].

O edrych ar achau'r teulu Corsygedol gellir casglu i Benlan Fawr ddod yn rhan o Stâd Corsygedol un ai mai drwy briodas â theulu, Talhenbont: William Vaughan ac Ann Vaughan Talhenbont (yn priodi ddechrau'r 17g.), neu Richard Vaughan a Sioned Vaughan, Talhenbont (tua chanol 16g.), neu genhedlaeth ynghynt na hynny drwy uniad â theulu Llwyndyrys : Rhys Vaughan a Gwen Anwyl ferch Gruffudd ap Madog Llwyndyrys (hanner cyntaf y 16g.). Y mae cymhlethdod yr ymbriodi rhwng y teuluoedd hyn yn ei gwneud yn anodd medru fod yn hollol bendant am hyn,[6] ond yn fy marn i, y briodas fwyaf tebygol ydyw y briodas â Gwen[7] Llwyndyrys. Un o'r rhesymau dros ddweud hyn oedd fod gan Richard Vaughan eu mab dŷ yn y dref yn 1578. [8] Nid yw'n annhebygol mai Penlan Fawr oedd y tŷ hwnnw. Byddai'n dŷ tref o fewn tafliad carreg hwylus i'r lle deuai'r llongau, ac i'r tolldy maes o law.[9]

Ymhellach ymddengys fod teulu Llwyndyrys ers rhai cenedlaethau o flaen y Richard Vaughan hwn, wedi bod yn dra blaenllaw yn y dref. Dyna pam yr wyf yn chwannog i dybio mai eiddo Llwyndyrys oedd Penlan Fawr yn wreiddiol ac mai tŷ tref y teulu hwnnw oedd. Ceir honiad ar ddiwedd y 18g. i'r teulu hwn ddal y swydd o faer Pwllheli am dros chwe chan mlynedd. Er bod hyn yn gorddweud y sefyllfa, yn un peth nad oedd maer wedi bod yn y dref am gymaint o gyfnod, yr oedd peth gwir yn y sefyllfa o ran gafael a grym y teulu o'r canol oesoedd ymlaen.[10]

---

[1] Yn nogfen Archifdy Caernarfon XSC 538, lle ceir cynllun o'r eiddo ar y pryd. Lot 10, Penlan Fawr Inn, Mr Richard Pugh Jones [tenant] " 18 The Inn in Penlan Street, with Yards, and Buildings, compromising Coach –house, Stabling for 15 Horses, Brewhouse, and open Sheds, &c…" , "19 Garden". Noder fod yr eiddo yn cynnwys yr adeilad sydd i'r gogledd o'r dafarn bresennol yn sownd i'r bwa. Gwelir hynny yn y cynllun sy'n XSC 538. Ond nid ymddengys fod y bwa yno ar y pryd dim ond adwy rhwng y ddau adeilad. Yr un peth sy'n dangos ym map 1834 o'r dref [Archifdy Caernarfon XM Maps 4401], er nad yw hwnnw mor eglur fod yr adeilad yn rhan o'r dafarn.

[2] Archifdy Caernarfon: XD2/7687**,** 1738.

[3] Archifdy Caernarfon: XD2/7688, 1732.

[4] Mostyn (Bangor) 5667, 1724.

[5] Mostyn (Bangor) 1314): "Tû ymhen y lan" [*lan* nid *llan* sydd yma mae un *l* gyntaf wedi ei dileu]

[6] Griffith, John Edwards: *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Horncastle, 1914) (adargraffiad : Wrexham, 2009), tudalennau 161, 179, 231. 279. O fewn y fath gymhlethdod dichon nad yw'r hyn a geir yma ychwaith heb frychau. Teimlaf weithiau nad yw'r cenedlaethau'n ffitio'n daclus i'w gilydd.

[7] "Gwenhoy*far*" yn llawn am "Gwen" Mostyn (Bangor) 390: 14 Hydref 1565.

[8] Mostyn (Bangor) 1308. Sonnir am y tŷ hwnnw i hwylus dweud lle safai tŷ arall canolog i'r ddogfen, a oedd yn cael ei werthu am £19. (Ni welaf sut y daeth y ddogfen hon yn eiddo i stâd Mostyn oni ddaeth y tŷ hwn hefyd i ran y stâd honno rywbryd).

[9] Yr oedd Pwllheli wedi cynyddu peth yn yr 16g.. O'r cyfnod ceir cerddi moliant i dref ffyninannus gan i Ieuan Tew a Morus Dwyfech. Gweler: Jones Pierce, T.: *Medieval Welsh Society* (Cardiff, 1972) yn yr erthygl 'A Caernarvonshire Manorial Borough' tudalennau 185-6.

O droi at yr adeilad ei hun. Yn ôl infentori y Comisiwn Brenhinol[1] credid fod y portj yn gyfoed â gweddill yr adeilad oll yn dyddio o ddechrau'r 17g.. Ond ar ôl tynnu'r gorffeniad (2010) gwelwyd nad oedd y cerrig yn pwytho o gwbl, ac mai ychwanegiad diweddarach oedd. Ar yr un pryd canfyddwyd fod yr hen ddrws ffrynt wedi ei flocio ddwylath i'r de o'r un sydd yn y portj. Uwch ei ben ond ychydig bach yn fwy i'r chwith, ymddengys i ffenestr gyfled ag ef gael ei blocio, y mae'r trawsfaen yn aros, ond y mae dau drawsfaen sydd yn ei gwneud yn anodd gweld yn union faint a lleoliad y ffenestr honno. Yr oeddwn wedi tybio hefyd y gwelid arwydd nad oedd o leiaf rai o'r 4 ffenestr blaen yn eu llefydd gwreiddiol, ac ymhellach oddi wrth y drws yn enwedig yn achos ochr ddeheuol yr adeilad. Ond nid oes dim arwydd eglur i mi o hyn. Yr unig bosibilrwydd arall y gallaf i feddwl amdano, ydyw bod y ffenestri yn y mannau gwreiddiol ond bod yr agoriadau wedi eu gwneud yn fwy. Yn amlwg felly yr oedd fersiwn hŷn sylweddol wahanol o'r adeilad.

Am y waliau sydd rhwng colofnau'r portj a'r prif adeilad ar y llawr isaf, ymddengys yn sicr eu bod wedi eu hychwanegu ar ôl y colofnau, ac ar yr un ochr ddeheuol y mae bwlch ffenestr fechan wedi ei blocio. Yr oedd wedi ei blocio gyda cherrig heb forter - pan roddwyd gorffeniad ar yr adeilad, a'r fainc a arferai fod yno (hyd tua 1970 o'm cof i). Damcanaf i'r porj ar un adeg feddu ar gorn simnai main addurnedig tywodfaen coch ond i hwnnw wisgo a dryllio yn nannedd y tywydd nes i un brics gael ei roi yn ei le (18g neu hanner cyntaf y 19g. mi dybiwn). Daeth y brics i'r golwg yn 2010 wrth ailwneud. Mae'r corn simnai bellach wedi ei orchuddio â chalch. Fy sail dros honni hyn yw fod darnau o dywodfaen coch wedi eu hymgorffori yn y wal o dan y corn simnai diweddarach. Yno hefyd mae darnau o dywodfaen melyn (tebyg i golofnau'r portj) eto wedi eu hailgylchu. Siawns y gallai hyn fod yn arwydd o ddeunydd gwreiddiol y ffenestri tebyg i rai porthdy Corsygedol efallai[2], cyn y rhai pren 18-19g. sydd yno bellach. Yn y llun cynharaf o'r lle tua chanol y 19g. y corn simnai hwn sydd yno.

Tybiaf fod yr adeilad (yn enwedig bellach drwy fod cadarnhad fod y porj yn ddiweddarach) yn ffitio o ran dosbarthiad i fath rhanbarthol ôl ganoloesol o dŷ, a ddynodir gan Peter Smith fel "math A", gyda chorn simnai ym mhob pen. Sylwais wedyn fod Peter Smith prunbynnag wedi ei glustnodi yn y dosbarth hwn.[3] Yr wyf yn chwannog i feddwl y gallai'r prif adeilad yn wreiddiol yno o gyfnod mor gynnar â thua 1530 hwyrach. Bellach methodd y profion dendrocronoleg 2011 a chael unrhyw ddyddiad o'r pren a samplwyd. Dywedwyd i goed y portj a choed y to fod o'r un cyfnod. Gallai hynny fod yn arwydd i adeilad gael ailwampiad sylweddol: drwy ychwanegu portj ac ailwneud y ffenestri a'r drws. Byddai hynny wedi digwydd yn hanner cyntaf y 17g..

Ymddangosodd un cliw pwysig pa bryd y gwnaed hynny. Ar ôl tynnu'r gorffeniad ar y golofn dywodfaen ochr ddeheuol y portj, canfuwyd y llythrennau "R .V" wedi eu cerfio. Richard Vaughan yn ôl pob tebyg neu hyd yn oed efallai Robert Vaughan, ond pa un? Soniwyd eisoes am un Richard Vaughan yn nheulu Corsygedol, ond bu dau arall. Bu farw'r ail, gorwyr y cyntaf, yn 30 oed yn 1636, a'i ŵyr yntau oedd y trydydd fu farw yn 1734. (Ac os tybir nad Llwyndyrys oedd piau Penlan Fawr, ond Talhenbont, yna rhaid dwyn i ystyriaeth daid yr ail Richard Vaughan (o ochr ei fam) sef Richard Vaughan arall, a'i frawd yntau oedd Robert Vaughan.)[4]

Am y Richard Vaughan cyntaf – Richard Vaughan Llwyndyrys y cyfeirir ato fel arfer. Ymddengys iddo fyw yng nghartref ei fam yn Llwyndyrdys tan i'w dad farw rhwng 1565 a 1578. Erbyn 1578 yr oedd yng

---

[10] Jones Pierce,T.: *Medieval Welsh Society* (Cardiff, 1972) yn yr erthygl 'A Caernarvonshire Manorial Borough' tudalen 175-6: Honnai teulu Llwyndyrys mai hwy oedd meiri Pwllheli ers chwe chan mlynedd ond " … the tradition about the Vaughans, if inacurate in point of chronology, was otherwise well founded." Nodir achos gael ei gychwyn tua 1550 yn y 'Court of Augmentation' yn erbyn 'David Lloyd ap Madog' Llwyndyrys a honai ei fod yn faer Pwllheli. Bu ei frawd, Gruffudd ap Magog Fychan yn hawlio'r un statws. Merch Gruffudd oedd Gwen, mam y Richard Vaughan y soniwyd amdano eisoes 'an influencial figure in the borough in the first half of Elizabeth's reign…" Noder bod yr achau sydd yn y gwaith hwn y wahanol ar brydiau i Griffith, John Edwards: *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families*.

[1] *The Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire, Volume III: West, The Cantref of Lleyn* (London, 1964) tudalen 32.

[2] Smith, Peter: *Houses of the Welsh Countryside, (second enlarged edition)*, (London, 1988) llun 32.

[3] Ibid, tudalen 437."Type A": "Snowdonia house"

[4] Gweler troednodyn 6.

Nghorsygedol [1]. Prunbynnag, yn amlwg yr oedd Richard Vaughan yn fonheddwr o statws yn yr ardal yn uchel siryf Sir Gaernarfon yn 1578 a 'maer' etifeddol Pwllheli. Erys peth o'i hanes, a'i ran gyffrous ar brydiau, ym mywyd ei gyfnod.[2] Ond os tybir mai o'r 17g.[3] yw gwedd Penlan Fawr gyda'r portj ac yn y blaen, a'i fod yntau wedi marw cyn 1588[4], yna nid y fo fyddai'r "R.V" yma. (Nid yw cyfnodau'r ddau R.V. o Dalhenbont fawr diweddarach ychwaith.[5])

Yn y cyfamser noder hefyd fod cryn weithgaredd adeiladu yn mynd rhagddo yn niwedd y 16g. a dechrau'r 17g. yn hanes Corsygedol a Thalhenbont. Ailgodwyd llawer ar Gorsygedol yn 1592-3 gan Gruffudd Vaughan[6] (mab y Richard Vaughan cyntaf) a chododd William Vaughan ei fab yntau'r porthdy yno yn 1630. Tra bod Talhenbont wedi ei ail godi gan yr un WilliamVaughan yn 1607.[7]

Os dyfernir felly mai hanner cyntaf yr 17g. y tybir i'w gwedd bresennol y lle yna yn sicr byddai'r trydydd Richard Vaughan (fu farw yn 1734) yn rhy ddiweddar ei gyfnod i fod yn gyfrifol am yr adeiladu. Yr unig R.V. i ffitio felly ydyw'r ail Richard Vaughan 1606-1636. Yr oedd yn aelod seneddol Meirionnydd o 1628 ymlaen[8],

---

[1] Mostyn (Bangor) 390: 14 Hydref, 1565, mae Rhys Vaughan yn dal yn byw yng Nghorsygedol tra bo Richard Vaughan yn 20/5/1565 Mostyn (Bangor) 386 "of lloyndyrys". Erbyn 14/1/1577 neu 1578 mae Richard Vaughan "of lloyn dyrys" ond bellach "at Corssygedol" .

[2] O'r hyn y gwyddys amdano: Yr oedd yn Brotestant ymddangosiadol o argyhoeddiad o weld sut y bu'n gweithredu fel uchel siryf yn erlid rhai o'i gyd-foneddigion Pabyddol yn 1578. Yn Dodd A.H. *A History of Caernarvonshire 1284-1900* (Denbigh, 1968) tudalen 58, honnir iddo arestio Thomas Owen, Plas Du ac i ferw o draws gyhuddo ddigwydd am rai blynyddoedd . Yn Jones Pierce,T.: *Medieval Welsh Society* (Cardiff, 1972) yn yr erthygl 'A Caernarvonshire Manorial Borough' tudalen 192 ceir: "Thomas Owen … was arrested , following a heated altercation at a Pwllheli fair, by the leading squire on the Anglican side, Richard Vaughan of Llwyndyrys. Vaughan, who was a justice of the peace and mayor of the borough, had also arrested a priest called Sir Evan who had apparently come to Pwllheli ' to preach false news and rumours in order to move the people to rebel',. Daw gwrthgyhuddiad gan Thomas Owen yn ei erbyn dan Statud Siamperti Jones Pierce T. *Medieval Welsh Society* (Cardiff, 1972) yn yr erthygl 'Notes on the History of Rural Caernarvonshire' tudalen 81-2. Gall fod Mostyn (Bangor) 393 sef gwŷs Ladin (24/11/ 1581) at faer Coventry yn peri rhyddhau Richard Vaughan o garchar ac iddo gael ei gam-garcharu fod yn rhan o'r ymryson. (Noder fodd bynnag fod A.H. Dodd (tudalen 58 eto) yn cyfeiliorni drwy honni mai ychydig o dir wedi ei etifeddu gan ei wraig oedd ganddo yn ardal Pwllheli yn amlwg R.V. Llwyndyrys y'i gelwid hyd yn oed pan oedd yn byw yng Nghorsygedol- gweler troednodyn 8.) Mae Mostyn 398, (1/7/1597) yn trafod peth o'i eiddo oedd i fynd i'w ferch Mary, ac felly yr oedd wedi marw rywdro cyn hynny. Ond Gruffudd ei fab ailadeiladodd Corsygedol yn 1592 – gweler troednodyn 14. A Gruffudd hefyd oedd yn amddiffyn buddiannau'r teulu yn 1588 mewn achos pan oedd Sais o'r enw George Sheppard wedi prynu maenor Pwllheli gan y goron yn 1586 – gweler Jones Pierce,T.: *Medieval Welsh Society* (Cardiff, 1972) yn yr erthygl 'A Caernarvonshire Manorial Borough' tudalen 163.

[3] O dderbyn fod sail arwynebol gan *The Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire, Volume III: West, The Cantref of Lleyn* (London, 1964) tudalen 32, i dybio hyn. Hefyd dyna yn reddfol oedd teimlad Ric Tyler, arbenigwr ar adeiladau, a ymwelodd fis Tachwedd 2011. Bydd yntau maes o law yn manylu ar yr hyn a welodd.

[4] Gweler y modyn uchod.

[5] Gweler nodyn 6.

[6] Griffith, John Edwards: *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Horncastle, 1914) (adargraffiad : Wrexham, 2009), tudalen. 279.

[7] Ibid: William Vaughan rebuilt Plas Hên [Talhenbont] in 1607 and the elegant gate-house at Corsygedol in 1630…"

[8] Griffith, John Edwards: *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Horncastle, 1914) (adargraffiad : Wrexham, 2009), tudalen. 279: " He was M.P. for co. Merioneth. He was so very fat and unweildy that the folding-doors of the House of Commons were opened to let him in, which was never done

ond ni bu i William ei dad farw tan 1633.[1] Os felly gallai hynny awgrymu'n eithaf manwl ddyddiad i'r newidiadau cyfnod y portj gael eu cwblhau sef pan ddaeth ei dreftadaeth i'w ran a chyn iddo yntau farw, sef rhwng 1633 a 1636.

Noder hefyd fod yr adeilad talcen grisiog yn y cefn yn awgrymu i mi ei fod cyn 1700[2]. Yn ystod ymweliad Richard Suggett â'r adeilad (9/4/10) tybiai mai 18g. oedd coed to'r adeilad hwn, o ran eu ffurf, eto sylweddolwyd bod lle tân yn y llofft a allai ddyddio o gyfnod hŷn.

Nid oes sicrwydd yn union pryd y daeth y lle'n dafarn. Gellid tybio y medrai tai tref boneddigion droi'n llety neu dafarn drwy y byddai rhai'n cadw'r adeilad tra byddai'r perchenogion yn eu prif gartrefi mewn mannau eraill. Byddai'n gwneud synnwyr ariannol wedyn i gael arian gan ddieithriaid a fyddai'n chwilio am le aros. Honna T.Jones Pierce fod Penlan Fawr yn dafarn ar ddechrau'r 17g.[3] Dichon y gall fod yn iawn ond ymddengys nad oes ganddo dystiolaeth ddiamwys o hynny, fodd bynnag ymddengys y gallai fod yn dafarn win cyn 1622.[4] Yr oedd deuddeg tafarn yn y dref yn 1666, gallai fod yn dafarn y pryd hynny. Gallai fod wedi troi'n dafarn go iawn erbyn 1724 pan oedd John Griffith y nodais uchod yn talu rhent am y lle. Yn 1784 ym mhapurau'r Llys Chwarter enwir Penlan Fawr yn dafarn.[5] Ymddengys fod traddodiad fod Hywel Harris wedi aros yno ar ei ymweliad â Llŷn yn 1741.[6] Gwir ai peidio mae Cynan yn dewis lleoli Act II ei ddrama *Hywel Harris* o'i flaen y dafarn: " Tua 1748 neu 1749/ Y Palmant o flaen Penlan Fawr, Pwllheli. Ar y chwith ymestyn 'porch' agored y dafarn ymlaen i'r stryd, ac y mae un fynedfa iddo o'r stryd ei hun."[7] Damcaniaeth debyg sydd gan D.G.Lloyd Hughes fod Samuel Johnson a Hester Thrale wedi aros yno ar eu hymweliad a'r ardal yn 1774[8]. Nid ymddengys

---

but when the Usher of the Black Rod bought a message to the House of the King's being in the House of Lords desiring the attendance of the Commons, so when the folding-doors were opened a general rumour ran through the House that the Black Rod, or the Welsh Knight, was coming in."

[1] Yn amlwg yr oedd William Vaughan un deuheig am godi a gwella adeiladau. Ymddengys y gallai y syniad o droi Penlan Fawr yn dafarn fod wedi cychwyn gyda fo. Ynghlwm wrth hynny byddai gweddnewid a gwella'r adeilad i'r pwrpas (gweler troednodyn 26 isod) wedi medru cael ei gychwyn ganddo, ond iddo yntau farw cyn gorffen y gorchwyl, ac i Richard ei fab wneud hynny.

[2] Smith, Peter: *Houses of the Welsh Countryside, (second enlarged edition)*, (London, 1988) tudalennau 518-519. Wrth drafod y nodwedd hon, honnir mai efelychu Bachegraig , tŷ (1567) Richard Clwch yn Nyffryn Clwyd oeddid yn ei wneud gyda'r addurn yma. Ymddengys i mi o weld y dyddiadau a rydd i nifer o efelychiadau eu bod oll cyn 1700. Deil y nodwedd hon i'w gweld ym Mhlas Gwyn yn y Ffôr gerllaw.

[3] Jones Pierce,T.: *Medieval Welsh Society* (Cardiff, 1972) yn yr erthygl 'A Caernarvonshire Manorial Borough' tudalen 188.

[4] Nid yw T.Jones Pierce yn cyfeirio yn benodol at hyn fel ystyriaeth, ond yn Jones Pierce, T. : *Clenennau Letters and papers in the Brogyntyn Collection* (Aberystwyth, 1947) (sef gohebiaeth sydd fan gynharaf tua 1586) eitem 467, tudalen 133: Ceir llythyr dyddiedig 24 o Fai ond y flwyddyn yn anhysbys gan William Vaughan (b.f. 1633) o Dalhenbont at Syr William Maurice, Clenennau (1542 -1622) oedd yn Llundain ar y pryd, yn gofyn am drwydded i werthu gwin ym Mhwllheli. Noda fod tref Pwllheli yn dref farchnad a phorthladd yr ymwelid â hi yn fynych gan wŷr bonheddig gydag ond un dafarn win drwyddedig ynddi. Y mae'n feirniadol o ansawdd a phris y gwin a geid yn fanno. Felly gofynna am drwydded i John Owen (un cyflogedig gan William Vaughan) i werthu gwin, ac y telid i William Maurce (un o brif weinyddwyr y drefn yn y sir ar y pryd, siryf ac aelod seneddol droeon) pan ddychwelai o Lundain. Anodd peidio â meddwl mai ym Mhenlan Fawr y bwriadai William Vaughan werthu gwin, ac ni welaf reswm i feddwl na fyddai wedi cael hawl i wneud hynny. Os felly byddai'n dafarn win tua 1600, yn bendant cyn 1622 (blwyddyn marw William Maurice).

[5] Hughes, D.G.Lloyd: *Hanes Tref Pwllheli* (Llandysul, 1986) tudalen 182.

[6] Cynan: Hywel Harris (Wrecsam, 1932) . Crybwyllir hyn yn y Rhagair.

[7] Ibid tudalen 47.

ei bod yn wir.[1] A gellir dyfalu ymhellach heb ddim sail mwy na hynny, i Lewis Morris ar i hynt yn mapio arfordir Cymru aros yno yn 1742.[2]

Yn unol â'r ffasiwn i Seisnigo newidiwyd enw'r lle am gyfnod yn ystod y 19g. i *Red Lion*. Methodd yr enw newydd gydio.[3] Ond ac eithrio'r Crown (Crown and Anchor) hon oedd y dafarn â'r gwerth trethiannol uchaf yn 1801 sef £5 tra bod y Crown (a godwyd yn 1800) yn £6.[4] Yn amlwg yr oedd yn ganolfan gymdeithasol o bwys a dyfynna D.G.Lloyd Hughes rigwm a ymddangosodd yn y *The Caernarvon and Denbigh Herald* 15/1/1892: "Dancing ball yn Penlan Fawr/ Crwc o ddŵr ar ganol y llawr", fel arwydd o hynny er yn methu â gweld union arwyddocâd y rhigwm.

Ar drywydd arall ynghynt yn y ganrif honno, yn 1802, cyn i gapeli a diod gadarn ymddieithrio a'i gilydd, dywedir i'r Wesleaid gynnal eu cyfarfod cyntaf yn y dref yn un o'r ystafelloedd yn y cefn.[5] A swyddogaeth arall wahanol i Benlan Fawr hefyd oedd bod yn ysgol – yn ysgol breswyl i fechgyn bonheddig, gan ŵr o'r enw John Parry o 1819 tan 1836 a Richard Pugh Jones wedyn tan 1839.[6]

Y mae cyfrifiadau 1851 hyd 1911 yn dangos i'r fan fod yn dafarn drwy'r cyfnod hwn, ac yn enw'r rhai a oedd yn ei chadw ac yn byw yno dros y blynyddoedd. Er enghraifft gwelir William Jones a Jannett Jones y ddau'n enedigol o Lanengan, yn dafarnwr a'i wraig yn 1871. Erbyn 1881 mae Jannett yn weddw 56 oed yn cadw'r dafarn ei hun. Yno yn gweithio mae Mary Jones 28 (genedigol o blwyf Llangian). Ar y pryd yr oedd James Cowell yn enedigol o Gaernarfon yn glocsiwr yn yr un stryd. Erbyn 1901 y fo a Mary bellach yn wraig iddo cadw'r dafarn. Dywedodd Owen Cowell ŵyr James a Mary fod Jannet yn fodryb i Mary ac mae hynny oedd y cyswllt.

Yn y cyfamser fel y dywedwyd gwerthodd Stâd Mostyn y dafarn yn 1844. Fe'i prynwyd gan Abraham Jones Williams (1812-1887), Gelliwig[7]. Ymddengys yr etifeddwyd hi wedyn gan Arthur Osmond Williams (A.S. Meirionnydd), ei nai mab ei frawd (David Williams, Castell Deudraeth – A.S. Rhyddfrydol cyntaf Meirionnydd). Gwerthodd yntau'r lle i James Cowell y tafarnwr ar 15/11/1905 am £855.[8]

Ni welais fap o'r cynllun o'r hyn a werthid ond yn amlwg rhaid ei fod yn cynnwys mwy na'r adeilad gwreiddiol ond yr adeilad i'r gogledd o'r bwa hefyd.[9] Bellach y bwa a'r rhan uwch ei ben yn unig sydd yn eiddo i'r dafarn. O'r ddogfen werthu hefyd nodir fod yr ystafell yn y llofft yno wedi ei defnyddio rywdro fel theatr.[10]

[8] Hughes, D.G.Lloyd: *Hanes Tref Pwllheli* (Llandysul, 1986) tudalen 183: "I Benlan Fawr y mae'n debyg, yr âi teithwyr, fel y cysetlyd Dr. Samuel Johnson a Mrs Thrale yn 1774 pan ar daith i weld Bodfel …"

[1] Bristow, Adrian: *Dr Johnson and Mrs Thrale's Tour in North Wales 1774* (Wrexham, 1995) Ymddengys i mi o ddarllen hwn na bu iddynt aros ym Mhenlan Fawr.

[2] Mostyn (Bangor) 7586: llythyr dyddiedig 3/6/1742 o Bwllheli at ei gyfaill William Vaughan Corsygedol, a oedd o ran hynny, a Phenlan Fawr yn rhan o'i stâd.

[3] Hughes, D.G.Lloyd: *Hanes Tref Pwllheli* (Llandysul, 1986) tudalen 183-4. Ymhellach ceir englyn i'r lle dan yr enw hwnnw gan Owain Lleyn yn ymateb i Sion Cawrdaf:

[4] Lliw coch ar y llew cuchiog, - dy elyn

[5] Yw, dalwr hanerog;

[6] I ddyn iawn, a dâl iawn lôg,

[7] Dyry gwrw'n drugarog.

[8] Ibid, tudalen 200.

[9] Ibid tudalen 165 a 200.

[10] Ibid tudalen 141, a cheir yno restr o ffioedd am fechgyn o wahanol oedran (10 oed neu hŷn) rhai 10-12 £10, 12-14 £20, 14- £24, i gael mynd i'r parlwr hefyd £26 ac am ddysgu sgiliau e.e. 5 swllt y chwarter am

Clywais wedyn gan Owen Cowell i'w daid werthu'r dafarn tua 1921 -2 i fragdy.[1] Y mae'r 1920au yn ffitio'n daclus i steil gwaith coed y grisiau a'r drysau mewnol a'r ddwy ffenestr wydr lliw a oedd wedi goroesi'n rhannol tan 2010[2] ar y llawr gwaelod y naill ochr i'r porj. Hwyrach mai'r pryd hynny bu nifer o newidiadau mawr i'r adeilad , o bosib dynnu grisiau tro a allasai fod wedi bod wrth y lle tân a gosod y grisiau yn eu safle presennol, oni bo hynny wedi digwydd lawer ynghynt. Y mae'r trawstiau rhwng y distiau yn y rhan honno yn "newydd" o gymharu â'r gweddill. Dyma hefyd pryd y gwnaed y lolfa a'r bar a'r snyg, fel y cofiaf hwy yn yr 1970au.

Chwalwyd y snyg a chaewyd yr hwn ddrws bar yn yr 1980au, ac wedyn cafwyd newidiadau pellach mwy yn 2003 gan Punch Taverns pryd y bylchwyd yr hen wal gefn a symud y bar i estyniad mwy yn y cefn. Gwnaed rhai newidiadau pellach yn 2009 a 2010 ar ôl i Punch Taverns werthu'r lle.

Fel y dywedwyd uchod yn 2010 tynnwyd y gorffeniad oddi ar flaen yr adeilad, pryd y gwelwyd y ffenestr a'r drws a flociwyd a'r llythrennau "R.V". Hefyd cyn sandblastio'r waliau tu blaen hynny, gwelwyd mai gwyngalch gwyn oedd yn gyntaf ar y cerrig, yn dilyn hynny bu am gyfnod wedi ei wyngalchu'n las ac ar ôl hynny yn felyngoch. O edrych ar ran fechan o'r wal gefn sydd â gwyngalch arni o hyd, nid ymddengys fod y cefn erioed wedi bod yn las na melyngoch ychwaith. Hefyd daeth yn amlwg lle daeth y cerrig i godi'r adeilad: rhai cerrig tir glas (gyda chrawen felyngoch) rhai cerrig cochlyd o'r math a geir yn yr Allt Fawr ond mae'r rhelyw yn gerrig Mynydd Tir Cwmwd, Llanbedrog. Byddai cerrig Llanbedrog wedi bod yn cael eu llwytho yn syth i gwch i'w cario i'r safle. Y mae'r garreg hon yn dra chyffredin yn y stryd gyfagos. Maen o Lanbedrog sydd uwch ben y drws ffrynt, tra bod y trawsfeini uwch ben y ffenestri yn llechi Maentwrog, a'r un uwch mynediad yr hen seler. Daeth un trawsfaen i'r golwg y tu mewn ochr uchaf i'r un ger y seler, wrth wneud gwaith pwytho wal y portj i'r prif adeilad (wedi i lori daro'r portj ar 28/6/2011). Gwelais hefyd mai gwyngalch gwyn oedd ar y parwydydd y tu mewn, cyn i haen o galch gael ei rhoi i'w gorchuddio yn ddiweddarach. Am y tywodfaen melyn sydd yn ffurfio'r colofnau a'r tameidiau mân yn nhalcen y portj, a allai fod wedi dod o Egryn yn Ardudwy?

Hwn yw'r adeilad hynaf o dipyn ym Mhwllheli. Tros y blynyddoedd bu'r defnydd amrywiol ohono yn plethu i mewn i hanes yr ardal nes ei fod yn adeilad o bwys yn nelwedd y dref i drigolion Pwllheli a'r cyffiniau. Ar un wedd gellir honi mai hwn yw adeilad pwysicaf y dref.

gan Iwan Edgar, Penlan Fawr.

1-2-2012 (Drafft 8)

---

ddysgu darllen, 7 swllt am ysgrifennu ayyb.

[1] Dangosir hyn drwy anghydfod sydd i'w gweld yn LlGC 18355E (Borth-y-gest 94): "Papers in an action concerning a boundary wall etc. at Penlanfawr House, Pwllheli, between Abraham Jones Williams and David Evans (c 50 letters etc.) 1830-1851, *English*"

[2] Cefais o gopi o'r cytundeb.